**CYNGOR BRO MACHNO**

Cofnodion cyfarfod 20 Mawrth 2014 a gynhaliwyd yn Festri Salem.

**Presennol**: D Gwyndaf (Cadeirydd), Eryl Owain, D A Hughes, Cyril Lewis, Colin Jones a'r Cynghorydd W.E. Jones.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Thomas ac Eifion Davies.

**Menter Bro Machno** - bu trafodaeth gydag aelodau o Fenter Bro Machno ynglŷn â phris oedd wedi cael ei dderbyn ar adeilad gwag yn y pentref. Penderfynwyd gofyn am ychwaneg o fanylion gan y perchennog.

**Cofnodion** - derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr fel rhai cywir.

**Toiledau** - dau bwyllgor wedi bod gyda swyddogion o gyngor Conwy i drafod atgyweirio'r toiledau, gyda'r posibilrwydd o drosglwyddo gofal i'r gymuned. Disgwyl am ymateb pellach a llawnach gan y Cyngor Sir.

**Gwefan -** trefniadau ar y gweill i sefydlu'r wefan yn fuan.

**Biniau ailgylchu** - cais i gael cynrychiolydd o Gyngor Conwy i'r pwyllgor nesaf i drafod gweithredu'r cynllun newydd.

**Madog ap Llewelyn** – penderfynwyd ystyried ymhellach sut y gellid coffau un o dywysogion Cymru a gyhoeddodd Ddatganiad Penmachno yn 1294.

**Pwyllgor Parc Cenedlaethol** – dewisiwyd Dafydd Gwyndaf a'r ysgrifennydd i fynychu'r pwyllgor.

**Un Llais Cymru -** penderfynwyd talu tâl aelodaeth.

**Sgipiau -** trefnu cael sgipiau i Benmachno a'r Cwm.

**Toriadau ariannol Parc Cenedlaethol -** Gofyn i'r Parc os oedd toriadau i fod, na ddylai hynny effeithio ar y warden oedd yn gweithio yn yr ardal